Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)
Adroddiad Blynyddol 2022/2023

Rhif y cwmni: 08632556
Cyfeiriad cofrestredig:
c/o Edwards and Keeping
Unity Chambers
34 High East Street
Dorchester
Dorset
DT1 1HA

Cyfeiriad post:
PO Box 9322
Dorchester
DT1 9HW

Neges gan y Cadeirydd

Dyma'r tro cyntaf a'r olaf y byddaf yn ysgrifennu'r sylwadau agoriadol ar gyfer yr adroddiad blynyddol fel Cadeirydd ICVA, ar ôl bod yn Gadeirydd Dros Dro ers yr haf diwethaf pan ymddeolodd ein cadeirydd hir-sefydlog, Martyn Underhill, o'r swydd. Fe wnaeth Martyn lywio'r sefydliad drwy gyfnod sylweddol o newid a thrawsnewid, a diolchwn iddo am ei ymroddiad a'i wasanaeth i ICVA. Fel Is-gadeirydd, ymgymerais â'r rôl Cadeirydd Dros Dro ac rwyf wedi cael cefnogaeth dda iawn gan fy nghydweithwyr ar y Bwrdd a'n Prif Swyddog Gweithredol. Er mwyn sicrhau y gall ICVA barhau i ddarparu ei wasanaethau'n effeithiol, rydym wedi cynyddu capasiti'r bwrdd drwy ychwanegu tri aelod newydd – Rosanna Ellul, Niamh Byrne a Moawia Bin Sufyan - sy'n cyflwyno arbenigedd gwerthfawr mewn perthynas â chyfathrebu ac ymgysylltu, polisi cyfiawnder troseddol, a hawliau dynol.

Bu rhai newidiadau staffio eleni hefyd yn sgil penodi Sherry Ralph, sydd wedi bod gydag ICVA ers 2016, yn Brif Swyddog Gweithredol parhaol, yn dilyn ymddiswyddiad Ashley Bertie. Diolchwn i Ashley am ei amser gydag ICVA a dymunwn yn dda iddo gyda'i ymrwymiadau newydd. Ymunodd Jenna Walop fel intern cyntaf ICVA, ac mae hyn wedi bod yn llwyddiant mawr.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i ddau o Gyfarwyddwyr ICVA sydd wedi ymddiswyddo yn ddiweddar. Gwasanaethodd Lizzie Shenton fel Cyfarwyddwr ICVA ers 2019 ac rydym yn falch iawn ei bod yn dal i fod yn gynrychiolydd ar y Fforwm Arbenigol Cenedlaethol. Gwasanaethodd Jo Nicholls fel cyfarwyddwr ICVA ac Ysgrifennydd y Cwmni, a gadawodd yn ddiweddar i fynd ar drywydd heriau newydd. Mae'r Bwrdd, swyddogion ICVA a minnau'n diolch i Jo am ei chyfraniad i ICVA dros y blynyddoedd ac yn dymuno'r gorau iddi.

Thema ICVA am y flwyddyn oedd gwrth-hiliaeth ac amrywiaeth, ac mae swyddogion wedi gweithio ochr yn ochr â Chynlluniau i gefnogi gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol, Just Visiting? sy'n ystyried effeithiolrwydd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wrth fonitro cydraddoldeb hiliol a rhywiol yn nalfeydd yr heddlu.

Roedd ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys datblygu a darparu hyfforddiant o ran Cynlluniau ar gyfer menywod yn nalfeydd yr heddlu, cydraddoldeb a rhagfarn, hiliaeth ac amrywiaeth wrth recriwtio, ymwybyddiaeth o'r gymuned draws, a phwysigrwydd dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Yn ogystal â hynny, cynhyrchwyd cyngor ac arweiniad hefyd ar gyfer cynlluniau ar sut i gasglu a defnyddio data demograffig y rhai a gedwir yn y ddalfa er mwyn nodi unrhyw wahaniaethau o ran y ffordd y cânt eu trin.

O ganlyniad i waith caled, didwylledd ac ymrwymiad y Cynlluniau a'r gwirfoddolwyr, rydym wedi ymgorffori ein dull gwrth-hiliaeth mewn arferion ymweld â dalfeydd annibynnol a byddwn yn parhau i gefnogi ac annog pob Cynllun yn y gwaith hwn.

Rydym hefyd wedi cyflwyno'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd diwygiedig i helpu Cynlluniau i ddangos sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau statudol, ac i

gydnabod a hyrwyddo arfer gorau, ac rwy'n falch o weld bod gennym hyd yn oed ragor o gynlluniau y tro hwn sy'n anelu at statws Arian, Aur a Phlatinwm.

Mae ICVA wedi parhau i gefnogi cynlluniau drwy'r Fforwm Arbenigol Cenedlaethol a gweithio gyda nhw, wedi parhau i fynd i gynadleddau lleol a chysgodi ymweliadau â dalfeydd, a chynrychioli eich gwaith a'ch mewnwelediadau i'r Swyddfa Gartref a fforymau cenedlaethol eraill sy'n gysylltiedig â dalfeydd.

Mae llawer i fod yn falch ohono ym maes plismona yn y DU, ond rhaid i ni dynnu sylw at bryderon diweddar a godwyd, fel adolygiad y Farwnes Louise Casey o ddiwylliant a safonau yn y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, gyda materion fel casineb at fenywod yn dod i'r amlwg mewn ardaloedd heddluoedd eraill, adroddiadau diweddar arolygiaeth yr heddlu ynghylch fetio, camymddwyn a chasineb at fenywod ac ymatebion heddluoedd o ran adnabod pobl fregus. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnig gwersi i ni i gyd, ble bynnag yr ydym yn byw ac yn gweithio, yn enwedig mewn perthynas â phwysigrwydd ymddiriedaeth a hyder mewn plismona, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a sut mae'r heddlu'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn eu trin.

A dyna lle mae ein cynlluniau ymweliadau annibynnol â dalfeydd a gwirfoddolwyr ymroddedig y cynlluniau hyn i gyd yn chwarae eu rhan. Maent yn rhan bwysig o'r gwaith o dynnu sylw at faterion yn amgylchedd y ddalfa, dwyn yr heddlu i gyfrif ar faterion yn ymwneud â dalfeydd a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl wirfoddolwyr sy'n rhoi mor hael o'u hamser am y gwaith hanfodol hwn, ac i reolwyr cynlluniau sy'n eu cefnogi, gan weithio gyda'r ICVA i sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu rheoli'n dda ac yn ein cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol i'r rhai sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Natasha Plummer
Cadeirydd Dros Dro
Gorffennaf 2023

Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd: Ffeithiau a ffigurau'r flwyddyn:

Ar gyfer y flwyddyn 2022 – 2023 (Ebrill - Mawrth), cynhaliodd gwirfoddolwyr sy'n ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ledled y DU dros 6,500 o ymweliadau, gan ryngweithio â thros 21,000 o garcharorion a darparu rhyw fath o waith monitro amgen ar gyfer 7,200 o bobl ychwanegol yn y ddalfa. Mae rhai bylchau yn yr ystadegau hyn a bydd y cyfansymiau gwirioneddol yn uwch na hyn, ond dyma'r isafswm a adroddwyd i'r ICVA.

O blith yr ardaloedd yr ydym wedi derbyn gwybodaeth ar eu cyfer, cafodd dros 660,000 o bobl eu cadw yn nalfeydd yr heddlu yn 2022/2023 gyda chyfartaledd cyffredinol o 3.4% o'r boblogaeth yn y ddalfa ar draws y DU yn cael ymweliad neu ffurf o oruchwyliaeth gan Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa.

Roedd dros 6,500 o ymweliadau yn 2022/2023, sy'n golygu y bydd ymwelwyr wedi treulio dros 13,000 o oriau yn ymgymryd â gweithgareddau monitro i amddiffyn hawliau, hawlogaethau a llesiant carcharorion yn nalfeydd yr heddlu.

Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
Diben y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) yw arwain, cefnogi a chynrychioli cynlluniau lleol ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.

Gweledigaeth

Caiff y rhai a gedwir yn y ddalfa eu trin yn deg, gydag urddas heb unrhyw gamdriniaeth.

Cenhadaeth

Arwain, cefnogi a chynrychioli cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i fod yn effeithiol, sicrhau lles y rhai a gedwir yn y ddalfa a goruchwylio dalfeydd yr heddlu.

Gwerthoedd

ANNIBYNIAETH – Heb ragfarn, diduedd.
HAWLIAU DYNOL – Hyrwyddo ac amddiffyn.
PARCH – Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, urddas.
EFFAITH – Wedi ymrwymo i newid go iawn.
PARTNERIAETH – Gweithio ar y cyd i atal camdriniaeth.

Sut y gwnaeth ICVA arwain cynlluniau yn 2022/2023?

Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

Roedd thema flynyddol ICVA yn canolbwyntio ar wrth-hiliaeth ac ymateb i adroddiad y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol – *Just Visiting?* Ymatebodd ICVA i'r thema hon yn y ffyrdd canlynol:

- Rhannu dysgu, polisïau ac arferion gorau cenedlaethol.
- Cynnal cynadleddau cenedlaethol i staff a gwirfoddolwyr y cynlluniau.
- Cyflwyno modiwlau hyfforddi 'yn syth i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd' ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Hiliaeth a Phlismona.
- Cychwyn cynlluniau ar eu taith casglu data, gan ddarparu dogfen 'sut i' gyda rhesymeg, opsiynau sut i gasglu data a rhai categorïau data demograffig a awgrymir.
- Darparu adnodd syml ar gyfer cynlluniau i ddechrau edrych ar themâu adroddiadau wedi'u dadgyfuno gan ddemograffeg.

Fframwaith Sicrhau Ansawdd

Lansiwyd Fframwaith Sicrhau Ansawdd 2 ar 01 Ebrill 2022, yn dilyn seibiant o'r gwaith hwn oherwydd y pandemig Covid. Ers mis Ebrill 2020 rydym wedi gwneud rhai newidiadau pwysig i'r ffordd y caiff y Fframwaith ei redeg:

- Estynnwyd y cyfnod asesu i 18 mis (yn dod i ben ym mis Medi 2023).
- Tynnwyd yr elfen asesu cymheiriaid ohono.
- Yn ystod 2022/2023, gweithiodd ICVA gyda chynlluniau i bennu'r lefelau yr oeddent yn anelu atynt, cynhaliwyd asesiadau o'r rhai sy'n anelu at nod Platinwm a chynhaliwyd sesiynau trafod y Fframwaith i gefnogi cynlluniau gyda'r gwaith yn y maes hwn. Cynhaliodd ICVA nifer o gyfarfodydd ad-hoc hefyd gyda rheolwyr cynlluniau i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd.

Sut y gwnaeth ICVA gefnogi cynlluniau yn 2022/2023?

Yn ogystal â chefnogi cynlluniau gydag adnoddau gwrth-hiliaeth i'w cynorthwyo i wneud gwaith monitro effeithiol ac ymateb i'r adroddiad *Just Visiting?*, ymatebodd ICVA i geisiadau cynlluniau drwy ddarparu adnoddau ychwanegol i gefnogi ein haelodau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth Gryno Ddiwygiedig ar Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth
- Modiwl Dysgu Byr ar Anableddau Corfforol
- Gwybodaeth Gryno ar Ymwybyddiaeth o'r Gymuned Draws
- Briff ar Gwynion Carcharorion
- Briff ar Fewnfudwyr mewn Dalfeydd
- Canllawiau ar y Cynllun Diogelu
- Sesiwn Adrodd Electronig i gynlluniau
- Taflen Nodiadau Acronymau

Mae ICVA hefyd wedi darparu dwy sesiwn 'hyfforddi'r hyfforddwr' i gefnogi ac uwchsgilio rheolwyr y cynlluniau. Mae ICVA wedi ymateb i'r holl geisiadau ad-hoc am gyngor ac arweiniad ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys gwrthdaro buddiannau, hyfforddiant, rheoli gwirfoddolwyr, prosesau uwchgyfeirio, materion yn ymwneud â dalfeydd a mwy.

Sut y gwnaeth ICVA gynrychioli cynlluniau yn 2022/2023?

Mae ICVA yn cynrychioli ymwelwyr annibynnol â dalfeydd mewn sawl fforwm, gan gynnwys y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol, y Bwrdd Gweinidogol ar gyfer Marwolaethau yn y Ddalfa, Bwrdd Strategaeth Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a mwy.

At hynny, ffurfiwyd Gweithgor Partneriaid Gweithredol Dalfeydd fel grŵp newydd o reidrwydd yn ystod y pandemig. Caiff ei gadeirio gan y Swyddfa Gartref ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, y GIG, Cymdeithas y Cyfreithwyr, y Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol ac, wrth gwrs, ICVA. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi i ICVA yn rheolaidd i gynrychioli ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, ar lefel genedlaethol, gan dynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg gyda rhanddeiliaid perthnasol er mwyn mynd i'r afael â chamau adferol, gweithredu fel corff ymgynghorol ar gyfer materion a godir gan eraill a rhannu a dathlu ffrydiau gwaith ar y cyd a gwaith polisi ICVA.

Rhoddodd ICVA gyflwyniad i'r Fforwm Dalfeydd Cenedlaethol, gan gynrychioli ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ledled Cymru a Lloegr, a rhoi diweddariad cyffredinol am ganfyddiadau a throsolwg manylach o'r gwaith ar "ddillad gwrth-rwygo" a wneir gyda Heddlu Dyfed Powys.

Mae ICVA wedi cynrychioli cynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn y cyfarfodydd thematig parhaus ynghylch Paneli Craffu newydd ar Dalfeydd newydd, gan sicrhau bod gwaith gwirfoddolwyr yn cael ei gefnogi yn hytrach na'i ddyblygu gan waith y paneli newydd.

<u>Busnes fel arfer / gwasanaethau parhaus</u>
Mae ICVA yn darparu nifer o wasanaethau yn ychwanegol at y rhai ar thema flynyddol gwrth-hiliaeth a'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd y parhaodd i'w darparu drwy gydol 2022/2023. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Llunio cylchlythyr wythnosol i roi diweddariad i gynlluniau ar unrhyw newidiadau cenedlaethol, gwersi a ddysgwyd, arfer gorau ac arweiniad sydd ar gael i gynlluniau a gwirfoddolwyr.
- Arwain rhwydwaith o gynlluniau ymwelwyr sy'n ymwneud â therfysgwyr yn y ddalfa er mwyn datrys heriau, canfod problemau ac adrodd i Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth.
- Cynrychioli ymwelwyr annibynnol â dalfeydd o fewn y Fforwm Dalfeydd Cenedlaethol ac o fewn grwpiau rhanddeiliaid eraill.
- Ymgysylltu ag academyddion i gefnogi gwaith ar wella dalfeydd yr heddlu.

Gwaith Polisi ICVA yn 2022/2023.

Dillad gwrth-rwygo

Bwriad dillad gwrth-rwygo yw dileu'r risg y bydd pobl yn creu rhaff o'u dillad i achosi niwed iddyn nhw eu hunain drwy roi dillad arall, cryfach, iddynt yn lle eu dillad eu hunain, weithiau drwy rym. Yn ymarferol, mae dillad gwrth-rwygo, ynddynt eu hunain, yn creu nifer o broblemau'n ymwneud â diogelwch ac urddas.

Mae ICVA wedi cynnal adolygiad thematig o adroddiadau arolygiaeth ffurfiol sy'n ymwneud yn benodol â'r defnydd o ddillad gwrth-rwygo, ac a gofnodir bron bob amser fel rhai sydd angen eu gwella. Nid yw pob heddlu yn defnyddio'r dillad. Ymysg y gwelliannau a argymhellwyd mewn adroddiadau roedd cymesuredd y defnydd o'r dillad, cyfiawnhad dros ddefnyddio'r dillad a chadw urddas. Mewn geiriau eraill, mae'r dillad weithiau'n cael eu defnyddio lle y gellid defnyddio arsylwi neu ddull amgen o leihau risg ac enghreifftiau o'r dillad yn cael eu defnyddio, drwy rym, yn absenoldeb gwybodaeth am risg, a nodwyd fel cosb bosibl.

Cytunodd Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (OPCC) i gynnal peilot i edrych ar eu defnydd o'r mathau hyn o ddillad a gwella'r adegau pan gânt eu defnyddio, yn ogystal â chofnodi a gwneud penderfyniadau ynghylch eu defnyddio. Rhoddodd ICVA gefnogaeth i'r gwaith hwn drwy gynhyrchu system sgorio Coch, Oren, Gwyrdd i'r gwirfoddolwyr ei defnyddio i allu rhoi adborth clir i'r heddlu, cwestiynau i'w gofyn wrth edrych ar gofnod y ddalfa i sefydlu'r sgôr, a chefndir a hyfforddiant ynghyd â staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu ei hun.

Rhyddhaodd ICVA werthusiad interim o gynllun peilot Heddlu Dyfed-Powys ym mis Rhagfyr 2022, gan wneud cyfres o argymhellion ar gyfer gwelliannau cenedlaethol i'w rhoi ar waith wrth fonitro a defnyddio dillad gwrth-rwygo. Mae cynrychiolwyr o Heddlu Dyfed Powys ac ICVA wedi cwrdd â chynrychiolwyr eraill yr heddlu i rannu'r gwaith a wnaed a'r adnoddau. Bydd y thema hon, gan gynnwys sicrhau ymatebion ffurfiol i'r argymhellion, yn ffrwd waith barhaus ar gyfer ICVA yn 2023/2024.

Y Menopos

Mae ICVA wedi bod yn cefnogi Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Sussex a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), ac yn cydweithio â nhw i wneud newidiadau cadarnhaol i'r rhai a gedwir yn nalfa'r heddlu sy'n mynd drwy'r menopos. Mae angen y newidiadau hyn i sicrhau bod symptomau'n cael eu cydnabod, a bod cynllun gofal effeithiol yn cael ei ddarparu ar gyfer carcharorion. Er mai cyfran fach o boblogaeth ystafelloedd y ddalfa fydd y rhai sy'n mynd drwy'r menopos, mae angen cydnabod a lliniaru symptomau, er mwyn sicrhau bod y rhai a gedwir yn y ddalfa yn cael eu diogelu'n effeithiol ac yn gallu ymgysylltu â'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol.

Cafodd gweithgor ei gynnull, gyda chynrychiolwyr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ICVA, y GIG ac arweinwyr yr heddlu, a chyflwynodd y gweithgor adroddiad terfynol i'r Dirprwy Brif Gwnstabl Nev Kemp (Arweinydd Dalfeydd NPCC) i weithredu arno. Mae rheolwr cynllun Sussex wedi arwain ar y maes hwn ac wedi gwneud gwaith rhagorol i gynhyrchu hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer y ddalfa ynghylch symptomau ac ystyriaethau posibl o ran carcharorion yn y ddalfa sy'n mynd drwy'r menopos a'r perimenopos.

Cytunodd yr NPCC i ledaenu hyfforddiant ymwybyddiaeth i bob heddlu gydag argymhelliad ar gyfer cwestiwn sgrinio newydd wrth drefnu lle i fenywod yn y ddalfa, gan ofyn i bob menyw 40 oed neu hŷn a hoffai gael gofal iechyd i drafod unrhyw broblemau posibl gyda'r perimenopos neu'r menopos. Byddai hyn wedyn yn arwain at gynllun gofal ar gyfer y cyfnod a dreulir yn y ddalfa.

Ym mis Ionawr, aeth Prif Swyddog Gweithredol ICVA, ynghyd â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Sussex a rheolwr y cynllun, i ddigwyddiad Bord Gron Grŵp Seneddol Hollbleidiol ynghylch y menopos yn y system cyfiawnder troseddol. Tynnwyd sylw at y gwaith ar y cyd a oedd eisoes wedi'i wneud yn ogystal â'r ymateb cadarnhaol a gafwyd gan randdeiliaid. Mynegodd y Grŵp a'r Cadeirydd gefnogaeth i'r ffrwd waith.

Bydd yr NPCC yn brandio ac yn rhyddhau'r hyfforddiant ar gyfer staff dalfeydd ynghylch y menopos a'r rhai a gedwir yn y ddalfa, a disgwylir iddo gael ei ledaenu erbyn mis Mehefin 2023 a hyrwyddo'r defnydd o'r llwybr atgyfeirio newydd. Ar ôl i hyn gael ei gyflawni, bydd ICVA yn gweithio gyda Sussex a'r NPCC ar gyfathrebu ac, yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, bydd yn gofyn i gynlluniau fonitro newidiadau o ran effaith.

Yn ogystal â hyn, bydd ICVA yn rhannu'r maes hwn o waith polisi gyda'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol yn y flwyddyn i ddod er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws lleoliadau dalfeydd.

<u>Goleuadau 'Lux'</u>
Roedd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Sussex wedi adrodd bod carcharorion yn pryderu am lefel y goleuo yn eu celloedd a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar eu gallu i orffwys, a chysylltodd ag ICVA i gael rhywfaint o gymorth. Roedd ICVA wedi cael adroddiadau blaenorol ar y mater hwn ac wedi penderfynu mai'r dull gorau oedd cysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Grŵp Ystâd Genedlaethol yr Heddlu (NPEG) drwy'r Coleg Plismona a gofyn am adolygiad o lefelau disgleirdeb cyfredol (lefelau 'lux') goleuadau mewn celloedd.

Daethpwyd i gytundeb i ddiwygio'r Canllaw Dylunio Dalfeydd i leihau lefelau golau mewn celloedd yn ystod y nos. Daeth gwelliant i'r canllaw dylunio, gan ostwng y lefelau lux 33% ar gyfer ystafelloedd adeiladau newydd a'r rhai sy'n cael eu hadnewyddu ar raddfa fawr. Ar gais Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Sussex, ICVA a'r Swyddfa Gartref, rhoddwyd ystyriaeth wedyn ynghylch yr hyn y gellid ei wneud ar ystadau presennol. Roedd y Coleg yn gallu darparu rhywfaint o arweiniad i heddluoedd ar fesur lefelau 'lux' a ffyrdd o leihau'r golau, darparodd

ICVA gyd-destun ar gyfer y newidiadau, ac ysgrifennodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) lythyr a anfonwyd at bob Pennaeth Dalfa a Phenaethiaid Ystadau. Rhannodd ICVA y llythyr hefyd mewn cylchlythyr a rhoi diweddariad i randdeiliaid gyda chynlluniau. Bydd ICVA yn archwilio effaith y gwaith hwn yn 2023/2024 drwy gynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.

Canfyddiadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ynghylch cyflwr dalfeydd yr heddlu

Rhoddodd cynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd gyfoeth o adborth annibynnol ar draws y cyfnod hwn, gydag adroddiadau chwarterol yn ddigwyddiad arferol, ac adborth cenedlaethol ar faterion ad-hoc. Mae ICVA yn cyhoeddi trosolwg chwarterol o'r canfyddiadau yn y ddalfa ar adran “Openness” ein gwefan. Nodir isod rai o'r prif bryderon yn y ddalfa a adroddwyd yn 2022/2023. Mae'r holl faterion wedi cael eu huwchgyfeirio i'r rhanddeiliaid perthnasol drwy gyfarfodydd Gweithgor Partneriaid Gweithredol y Swyddfa Gartref.

Staffio

O ran meysydd sy’n achosi pryder, mae staffio wedi bod yn thema yn adroddiadau’r ymwelwyr annibynnol drwy gydol y flwyddyn adrodd. Staffio yn y maes gofal iechyd oedd y pryder a godwyd amlaf yn 2022/2023. Mae cynlluniau wedi adrodd am broblemau o chwarter i chwarter ynglŷn â staffio effeithiol ar gyfer gofal iechyd mewn ystafelloedd dalfeydd, gyda chynlluniau yn nodi nad yw carcharorion yn gallu cael gafael ar ofal iechyd yn amserol ac adroddiadau am garcharorion yn aros am gyfnodau maith.

Cynhaliodd ICVA arolwg o gynlluniau ym mis Hydref 2022 i ganfod maint y broblem. Nododd 44% o'r ymatebwyr fod trafferthion gyda lefelau staffio gofal iechyd yn eu hardal. Nododd 39% o'r ymatebwyr fod trafferthion o ran argaeledd staff iechyd meddwl. Mae partneriaid gofal iechyd yn ymwybodol o'r sefyllfa yn y dalfeydd, a bydd ICVA yn parhau i fonitro a chodi'r mater.

O ran staffio dalfeydd, cafwyd adroddiadau parhaus am ddiffyg staff benywaidd yn y ddalfa, gan effeithio ar allu'r ddalfa i gydymffurfio â Chod C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a throsiant uchel o ran staff dalfeydd yn fwy cyffredinol, gan arwain at ddiffyg arbenigedd yn y ddalfa.

Cyflenwadau Bwyd

Cawsom adroddiadau am y diffyg prydau priodol sydd ar gael i garcharorion mewn dalfeydd, gan arwain at bryderon gan ymwelwyr annibynnol ynghylch lles y rhai a gedwir yn y ddalfa.

Cynhaliodd ICVA arolwg o gynlluniau a chanfod ei fod yn bryder cyffredinol, felly cafodd hyn ei gyfleu i Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, a oedd yn gallu trafod y mater gyda'r cyflenwr. Adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, nid yw ICVA wedi cael adroddiadau pellach am broblemau yn y maes hwn ond bydd yn monitro ac yn uwchgyfeirio pe bai'r mater yn codi eto.

Urddas y Rhai a Gedwir yn y Ddalfa
Cafwyd adroddiadau parhaus gan gynlluniau ynglŷn â charcharorion yn gorfod gofyn am bapur toiled gan staff y ddalfa a charcharorion heb gael gwybod bod ardaloedd y toiledau wedi'u picselu'n effeithiol. Mae'r adroddiadau hyn wedi cael eu huwchgyfeirio ar lefel leol, a chafwyd adroddiadau calonogol am newidiadau yn y maes hwn gyda rhai ystafelloedd dalfeydd yn dosbarthu 'pecynnau noson gyntaf' neu debyg, gan gynnwys papur toiled.

Mecanwaith Atal Cenedlaethol
Mae ICVA yn aelod o UKNPM. Sefydlwyd UKNPM ym mis Mawrth 2009 ar ôl i'r DU gadarnhau'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT) ym mis Rhagfyr 2003. Mae'n cynnwys 21 o gyrff statudol sy'n monitro lleoliadau dalfeydd, yn annibynnol, mae'r rhai sy'n gwarchod dalfeydd yr heddlu yn cynnwys:

- ICVA
- Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Yr Alban
- Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi yn yr Alban
- Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth

Sefydlwyd y Mecanwaith i sicrhau ymweliadau rheolaidd â dalfeydd er mwyn atal artaith a chamdriniaeth arall, fel sy'n ofynnol gan OPCAT. Mae OPCAT yn cydnabod bod pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn arbennig o agored i niwed ac yn ei gwneud yn ofynnol i wladwriaethau sefydlu corff ar lefel genedlaethol a all gefnogi ymdrechion i atal camdriniaeth. Rhaid i'r Mecanwaith gael, fan leiaf, y pwerau i:

- Archwilio'n rheolaidd sut y mae pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn cael eu trin ym mhob man cadw o dan awdurdodaeth a rheolaeth y DU.
- Gwneud argymhellion i awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau unigolion sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid.
- Cyflwyno cynigion ac arsylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddrafft.

Cadwodd Prif Weithredwr ICVA (cyn Brif Swyddog Gweithredu) y swydd o fod yn arweinydd ICVA ar gyfer UKNPM ac roedd yn aelod o grŵp llywio UKNPM drwy gydol 2022/2023. Mae ICVA yn cyfrannu'n rheolaidd at waith thematig UKNPM, gan gynnwys ymatebion i bwyllgorau rhyngwladol ar atal artaith.

Cafodd UKNPM flwyddyn brysur yn 2022/2023. Ymgynghorwyd â'r aelodau ar gyfansoddiad newydd i ffurfioli cytundebau rhwng cyrff a chafodd staff newydd eu recriwtio i ddwy rôl. Mae'r UKNPM wedi drafftio cynllun busnes dwy flynedd newydd i ymgynghori arno a'i gymeradwyo, ar yr un pryd â'r cyfansoddiad ym mis Ebrill 2023.

Bod yn agored
Gellir olrhain cynnydd ICVA yn erbyn cynlluniau busnes o flwyddyn i flwyddyn ar y dudalen Openness ar wefan ICVA.

Mae'r dudalen hon yn cynnwys yr holl ddiweddariadau perfformiad chwarterol a gyflwynir i'r bwrdd a'r Swyddfa Gartref ar y cynllun busnes blynyddol. Gallwch ganfod trosolwg manwl diwedd y flwyddyn ar gyfer 2022/2023 a holl waith a chyflawniad ICVA yn erbyn y cynllun busnes yma. Cyflawnwyd holl amcanion y cynllun busnes ac eithrio recriwtio Cadeirydd newydd, a ohiriwyd drwy gytundeb.

Beth nesaf ar gyfer ICVA?
Gan edrych ymlaen at 2023/2024, byddwn yn canolbwyntio o'r newydd ar gyflawni'r pethau sylfaenol, gan sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i barhau i gefnogi Rheolwyr newydd a phresennol y Cynlluniau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu deunyddiau cynefino Rheolwyr Cynlluniau a datblygu mwy o hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr o ran prosesau dalfeydd. Byddwn hefyd yn paratoi ar gyfer etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn 2024 ac yn parhau i weithio ar feysydd polisi fel menywod yn y ddalfa a'r defnydd o siwtiau gwrth-rwygo.

Yn 2023/2024 bydd gan ICVA Gadeirydd newydd, parhaol a bydd hefyd yn cwblhau Fframwaith Sicrhau Ansawdd 2 drwy'r cynlluniau, gyda gohebiaeth a dyfarniadau i ddilyn, yn dathlu cynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ledled y Deyrnas Unedig.

Blaenoriaethau mewnol
Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr ICVA yn gwneud gwaith rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben. Mae ICVA yn adolygu ei ofynion cyfreithiol, ei sefyllfa ariannol a'i ofynion strategol yn rheolaidd.

Bydd Cadeirydd newydd yn ymuno ag ICVA yn 2023 a rhagwelir y gellir gofyn am aelodau ychwanegol i'r bwrdd wedi hynny.

Y gofyniad adrodd blynyddol

Dibenion a llywodraethu

Adolygodd ICVA ei Erthyglau Cymdeithasu, gan eu diwygio ym mis Rhagfyr 2021. Mae erthyglau ICVA ar gael yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Mae gwrthrychau'r Cwmni wedi'u cyfyngu yn benodol, ym mhob achos, i fudd y cyhoedd yn unig i:

- Hyrwyddo hawliau dynol ymhlith personau sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill drwy ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth effeithlon ac effeithiol o ymweld â dalfeydd.
- Hyrwyddo addysg mewn materion a phynciau sy'n ymwneud â hawliau, hawlogaethau, iechyd a llesiant, ac amodau cyfleusterau, personau sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill.
- Hyrwyddo safonau ymddygiad moesegol a chydymffurfiaeth â'r gyfraith ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat sy'n gyfrifol am les pobl a gedwir yn y ddalfa yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill.

Caiff ICVA ei lywodraethu gan ei Erthyglau Cymdeithasu. Mae ICVA yn sefydliad nid-er-elw ac mae'n Gwmni Cyfyngedig drwy Warant.

Bwrdd Cyfarwyddwyr ICVA sy'n rheoli cyfrifoldebau cyfreithiol, cyllidol a strategol y sefydliad. Natasha Plummer yw Cadeirydd Dros Dro y Bwrdd ac mae'n gweithredu fel rheolwr llinell i'r Prif Weithredwr sydd, wedyn, yn rheoli rhagor o staff.

Mae aelodaeth y Fforwm Arbenigol Cenedlaethol (NEF) yn gorgyffwrdd â Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac yn dwyn ynghyd Reolwyr Cynlluniau a gwirfoddolwyr i rannu ymarfer, dysgu a chyflawni prosiectau ar y cyd.

Mae Fforwm ICVA yn enwebu 'cyfarwyddwyr sy'n aelodau' i eistedd ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Ategir yr aelodau hyn gan 'gyfarwyddwyr allanol' a gaiff eu recriwtio i ddarparu gwybodaeth a galluoedd arbenigol i'r sefydliad. Rhaid i aelod-gyfarwyddwyr bob amser fod yn fwyafrif ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Y cyfarwyddwyr sy'n penodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Cyfarwyddwyr a staff

Mae'r bobl ganlynol wedi gweithredu fel cyfarwyddwyr ICVA ar draws 2022/2023:

- Emily Spurrell
- Katie Beaumont
- Erika Dallinger
- Nicholas Hardwick
- Lucy McKay
- Natasha Plummer, Cadeirydd Dros Dro
- Elise Pout

- Kirsty Scott
- Elizabeth Shenton
- Martyn Underhill, Cadeirydd
- Rachael Waldron
- Moawia Bin-Sufyan
- Niamh Byrne
- Rosanna Ellul

Mae'r bobl ganlynol wedi gweithio i ICVA yn 2022/23:

- Ashley Bertie, Prif Weithredwr
- Sherry Ralph, Prif Swyddog Gweithredol, Prif Weithredwr o fis Tachwedd 2022
- Jenna Walop, Intern ICVA
- John Eagles, CPFA, Trysorydd Anrhydeddus
- Joanne Nicholls, Ysgrifennydd y Cwmni

Rhagor o wybodaeth

www.ico.org.uk

Trydar: @custodyvisiting
@projectICVA

Adolygiad Ariannol
Gweler yr adroddiad ariannol ychwanegol, sy'n amlinellu sefyllfa ariannol ICVA ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae gan ICVA tua chwech i naw mis o gyllid wrth gefn, yn unol ag arfer gorau, ac ystyrir ei fod yn briodol oherwydd ei ddibyniaeth ar un ffynhonnell gyllido ar gyfer y rhan fwyaf o'i gyllid.

Yn y flwyddyn 2022/2023, roedd gan ICVA gryn danwariant oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn. Bydd manylion llawn y tanwariant hwn ar gael ar ôl i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol ICVA ym mis Gorffennaf 2023.

Cytunwyd i gyfran ICVA o'r tanwariant hwn gael ei ddefnyddio ar nifer o flaenoriaethau aelodau sy'n cynnwys comisiynu sesiwn ymwybyddiaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar gyfer gwirfoddolwyr ac ôl-dalu swyddog am gyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol. Rydym yn aros am benderfyniad gan y Swyddfa Gartref ynghylch cyfran o'r tanwariant, ond os gellir ei gadw, bydd arian yn gwneud iawn am rywfaint o'r colledion a wynebodd ICVA yng nghynhadledd 2023 oherwydd streiciau trenau ac, o bosibl, i gynorthwyo gydag ariannu swydd ychwanegol.

Bydd ICVA yn parhau i ddibynnu ar gymorth y Swyddfa Gartref ac aelodaeth o ran incwm yn y flwyddyn i ddod, ac mae'n rhagweld parhau i fod yn fusnes gweithredol.